**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd

Llywydd@senedd.wales

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 12.01 a.m. ar 22 Rhagfyr. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig ar Ddydd Mawrth 22 Rhagfyr.

Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn y gellid ei osod. Mae angen iddynt ddod i rym ar unwaith wrth iddynt wneud diwygiad technegol sy'n sicrhau bod y gyfundrefn orfodi yn parhau i weithredu fel y gwnaeth o dan y gyfundrefn a ragflaenodd y prif Reoliadau presennol. Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u cyhoeddi ar dudalennau Covid-19 Llywodraeth Cymru ac legislation.gov.uk cyn iddynt ddod i rym.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 7 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.